



Ysgol Talysarn

Talysarn
Caernarfon
Gwynedd
LL54 6HR

Ffon: 01286 880885

E.Bost - GlendaEvans@gwynedd.llyw.cymru

Pennaeth/Headteacher: Mrs. Glenda Evans B.A. (Anrhydedd)

16.06.2020

Annwyl Rieni / Warchodwyr,

Hoffwn eich diweddarau hefo'r sefyllfa ail-agor ysgolion. Mae hyn yn gyfnod heriol i bawb a dwi'n ymwybodol fod sawl holiadur wedi eu hanfon atoch yn gofyn os bydd eich plant yn mynychu'r ysgol/gofal heb lawer o wybodaeth am drefniadau ayyb.

Pwrpas y pedair wythnos nesaf o'r 29ain yw:

- 1) Dod i'r ysgol - disgyblion i ymgysylltu â staff ac i staff wirio lles y disgyblion, mynediad at ddyfeisiau TGCh a symud ymlaen gyda'u dysgu.
- 2) Dal i fyny - cefnogaeth ar les a sgiliau craidd, parhau hefo dysgu o bell a chyfle i ddal i fyny hefo'u cyfoedion
- 3) Paratoi ar gyfer yr Haf a mis Medi - cael athrawon a phlant yn barod ar gyfer yr 'normal newydd' yn yr Hydref.

Mae'r wybodaeth gychwynol a gawsom o'r holiadur Cyngor Gwynedd wedi bod o gymorth wrth i ni, fel dalgylch baratoi am ail agor. Fel y gallwch ddychmygu, mae ail agor ysgolion hefo cyfyngiadau pellhad cymdeithasol yn heriol iawn. I sicrhau diogelwch bob plentyn a staff bydd rhaid i ni gadw at reolau cadarn megis cyfyngu nifer o ddisgyblion sydd yn yr ysgol ar unrhyw adeg i oddeutu 1/3 ar y tro.

Er mwyn sicrhau fod pob plentyn yn cael mynediad i'r ysgol a chael 'dal i fyny' hefo'r athrawon a'u cyfoedion rydym yn bwriadu agor yn y boreau yn unig. Bydd hyn yn sicrhau tegwch i bob plentyn gan gwrdd â chanllawiau'r Llywodraeth, sicrhau amser digonol i'r athrawon i baratoi tasgau gweithio o bell a sicrhau cyfnod digonol i'r ysgol gael ei lanhau. Bydd bob grwp yn dod i mewn am yr un un bore am y bedair wythnos. Cewch fwy o fanylion cyn gynted ac y byddwn ni yn cael canlyniadau holiaduron.

Yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth, ni fydd yr ysgol yn agored i blant y dosbarth Meithrin.

Bydd yr ysgol yn parhau i fod yn agored i blant 'Gweithwyr Allweddol' o 8-5 drwy'r wythnos. Mae'r gwasanaeth yma ar gael dim ond os **na ellir gofalu am blant yn ddiogel gartref**. Byddwn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n gymwys, archebu eu diwrnodau ar gyfer gofal plant o'r 29ain o Fehefin i'r 24ain o Orffennaf.

Gofynnwn yn garedig i **BAWB** lenwi'r holiadur cyn 18.06 (byddwn yn anfon i chi dros decst). Bydd y canlyniadau terfynol yma yn sicrhau ein bod mewn lle cadarn i ail agor ar y 29ain. Os nad ydym yn derbyn ymateb bydd rhaid i ni gymryd ni fyddwch yn anfon y plant i'r ysgol, nac yn defnyddio'r gofal sydd ar gael.

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf, mae wedi bod yn gyfnod heriol iawn i ni i gyd.

Yn gywir

Glenda Evans

Pennaeth